# Llwybr Beicio Parc y Rhath Cae Rec

## Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Awst 2022

### Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion Cyngor Caerdydd i welliannau ar diroedd Cae Rec y Rhath. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 9 Mawrth 2022 a 30 Mawrth 2022.

Roedd y gweithgareddau canlynol yn rhan o’r ymgynghoriad i’w hyrwyddo ac i gael adborth gan y cyhoedd i lywio'r cynllun:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun;
- Hysbysiadau safle yn cael eu harddangos yng nghyffiniau'r cynllun;
- E-bost at ymgyngoreion statudol;
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor; ac
- Arolwg ar-lein (trwy wefan y Cyngor / dosbarthu llythyrau)

Nodwyd bod yr URL a'r cynllun atodedig wedi'u hepgor o'r llythyr a gafodd ei bostio i drigolion fel rhan o'r dosbarthiad llythyrau. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth gyswllt a chod QR ar gael yn y llythyr a oedd yn cynnig modd naill ai i gael gafael ar y dolenni coll i'r wybodaeth neu i ofyn am yr wybodaeth.  Darperir gwybodaeth bellach am hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

### Ymatebion i’r ymgynghoriad

Cafodd tua 900 o lythyrau eu hanfon at drigolion a busnesau'r ardal ger y cynnig hwn.  At ei gilydd, derbyniwyd 257 o ymatebion drwy ddolen yr arolwg i’r ymgynghoriad. Byddai hyn yn awgrymu tua chyfradd ymateb o 28% gan dybio bod y bobl a dderbyniodd lythyrau wedi cwblhau'r arolwg.  Byddai hyn hefyd yn awgrymu nad oes gan tua 72% o bobl (na wnaeth ymateb) unrhyw wrthwynebiadau na barn ar y cynnig.

**Mae Tabl 1** yn dangos, allan o'r 257 o ymatebion, bod yr ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r mesurau arfaethedig gyda 68% yn ateb ie a 24% o'r ymatebwyr ddim yn cefnogi'r cynnig.

### Tabl 1 - Yn gyffredinol, ydych chi'n cefnogi'r mesurau a gynigir yn yr ardal hon?

| | Ymatebwyr | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 175 | 68% |
| **Nac ydw** | 62 | 24% |
| **Dim ots gen i** | 14 | 6% |
| **Dim ymateb** | 6 | 2% |
| **Cyfanswm** | 257 | 100% |

Mae Tabl 2 yn dangos y canlyniadau i'r cwestiwn, "Ydych chi ar y cyfan yn cefnogi'r mesurau penodol canlynol yn yr ardal hon?".


O'r ymatebion a gafwyd, gellir gweld bod 81% o'r ymatebwyr yn cefnogi lledu'r llwybr troed arfaethedig yn y parc ac mae mwy na hanner yr ymatebwyr yn cefnogi'r trac beicio yn y parc. Mae tua thraean o'r ymatebwyr yn cefnogi trac beicio ond maen nhw'n teimlo y dylai gael ei leoli ar y ffordd.

### Tabl 2 - Yn gyffredinol, ydych chi'n cefnogi'r mesurau penodol canlynol yn yr ardal hon?

| | Ymatebwyr sy'n cefnogi | Canran yr ymatebwyr sy'n cefnogi'r mesur (o'r 257 a ymatebodd) |
|---|---|---|
| **Rydw i o blaid lledu'r llwybr troed yn y parc** | 208 | 81% |
| **Rydw i o blaid y llwybr beicio yn y parc** | 134 | 52% |
| **Rydw i o blaid y llwybr beicio, ond dylai fod ar y ffordd** | 89 | 35% |

Rhoddir cynrychiolaeth weledol o ganlyniad y cwestiwn uchod yn Siart 1.

### Siart 1 - Yn gyffredinol, a ydych yn cefnogi'r camau penodol canlynol yn yr ardal hon?




O'r ymatebion a gafwyd, gellir gweld bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi lledu'r llwybr troed o fewn y cae chwarae ac maent hefyd yn gefnogol i'r trac beicio o fewn y cae chwarae.

Gofynnodd yr arolwg hefyd a fyddai'r ymatebwyr yn gweld y trac beicio arfaethedig yn fuddiol. Mae 53% o'r ymatebwyr yn credu y byddai'r trac beicio hwn wrth ymyl llwybr troed newydd lletach yn fuddiol. Mae **Tabl 3** yn dangos y canlyniadau llawn.

**Tabl 3 - A fydd y trac beicio drwy'r cae chwarae ar gae Rec y Rhath wrth ymyl llwybr troed newydd, lletach, yn fuddiol?**

| | Ymatebwyr | Canran |
|---|---|---|
| **Bydd** | 135 | 53% |
| **Na fydd** | 96 | 37% |
| **Dim ots gen i** | 22 | 8% |
| **Dim ymateb** | 4 | 2% |
| **Cyfanswm** | 257 | 100% |

Mae **Siart 2** yn rhoi cynrychiolaeth weledol o ganlyniadau'r arolwg. Gellir gweld bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo y bydd y trac beicio o fudd iddynt (rhan werdd).



**Siart 2 - A fydd y trac beicio drwy'r cae chwarae ar gae Rec y Rhath wrth ymyl llwybr troed newydd, lletach, yn fuddiol?**

Mae **Tabl 4** yn dangos canlyniadau'r ymatebwyr, i'r cwestiwn a ydyn nhw'n teimlo y bydd y gwelliannau arfaethedig yn eu hannog i ddefnyddio'r ardal yn fwy ar droed neu ar feic.

Mae'r canlyniadau'n cadarnhau bod 52% o'r ymatebwyr eisoes yn cerdded neu'n seiclo i'r ardal hon ond mae'r mwyafrif yn teimlo y bydd y cynnig newydd yn gwella eu mynediad. Mae 62 o ymatebwyr yn teimlo y byddai'r trac beicio a gwelliannau eraill yn eu hannog i ddefnyddio'r ardal ar droed neu feic.

**Tabl 4 - Ydych chi'n teimlo y bydd y trac beicio, neu welliannau eraill a gynigir yn eich annog i ddefnyddio'r ardal yn fwy ar droed neu ar feic?**

| | Ymatebwyr | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 62 | 24% |
| **Nac ydw** | 46 | 18% |
| **Weithiau** | 14 | 5% |
| **Rydw i eisoes yn cerdded neu'n beicio, ond bydd yn gwella mynediad** | 96 | 37% |
| **Rydw i eisoes yn cerdded neu'n beicio, ond ni fydd yn newid pethau i mi** | 38 | 15% |
| **Dim ymateb** | 1 | 1% |
| **Cyfanswm** | 257 | 100% |

O ganlyniad yr arolwg, gellir gweld bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gefnogol i'r mesurau arfaethedig.

Mae adran nesa'r adroddiad hwn yn rhoi rhestr o sylwadau, safbwyntiau neu bryderon a godwyd gan yr ymatebwyr drwy gyfrwng yr arolwg, neu o sylwadau a dderbyniwyd mewn e-byst neu lythyrau. Teitl y rhain yw 'materion'. Mae rhai o'r safbwyntiau wedi'u crynhoi, ar y sail bod rhai safbwyntiau neu bryderon yn cael eu rhannu gan nifer o ymatebwyr. Hoffem eich sicrhau bod pob barn a dderbyniwyd wedi cael ei hystyried.

Ar ddiwedd yr adroddiad hwn, rhoddir argymhellion a'r camau nesaf ar gyfer y cynnig.

## Sylwadau a godwyd

Ceir isod grynodeb o'r sylwadau a godwyd drwy'r ymgynghoriad gydag ymateb y Cyngor.

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| ***Bydd cerddwyr mewn perygl am fod y llwybr beicio wrth ymyl y llwybr troed...*** | |
| ***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Mae cael y llwybr beicio mor agos i'r llwybr troed lletach yn ddamwain sy'n aros i ddigwydd oherwydd nifer y beicwyr / reidwyr sgwter di-hid ac anystyriol sydd o gwmpas"* | Mae'r un cyfrifoldeb gan feicwyr a cherddwyr i fod yn ymwybodol o'u hamgylchoedd ac i fod yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill. Mae risgiau o wrthdaro i ddefnyddwyr y parc eisoes, fel plant yn chwarae, rhedwyr, pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon, hedfan barcud a cherddwyr cŵn i restru ychydig. I'r perwyl hwnnw, bydd y beicffordd yn cael ei wahanu oddi wrth y llwybr troed i gerddwyr a bydd arwyddion a mannau croesi dynodedig yn cael eu gosod ar hyd y llwybr beicio. Wedi dweud hynny, byddwn yn siarad ymhellach gydag adran Barciau'r Cyngor i benderfynu a yw mesurau pellach yn angenrheidiol. |
| *"Bydd y cynllun fel sydd wedi'i gynnig ar hyn o bryd yn arwain at wrthdaro rhwng beicwyr a cherddwyr, yn enwedig ar hyd y caeau chwarae - fydd gan gerddwyr ddim dewis ond croesi'r llwybr beicio i gyrraedd y cae o Heol Ninian, ac i'r gwrthwyneb."* | Bydd mwyafrif helaeth y llwybr ar wahan neu â gris wahanu, yn hytrach na bod yn llwybr a rennir. Bydd mannau croesi pwrpasol hefyd yn cael eu darparu. Cytunir y bydd trosi troedffyrdd i ddefnydd a rennir yn cael ei ystyried fel y dewis olaf lle nad yw'n bosibl darparu cyfleusterau ar wahân/â gris wahanu. |
| ***Pryderon am derfynu'r lôn feicio yn ddisymwth...*** | |
| ***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Mae ychydig yn bryderus am sut mae'r llwybr beicio yn ail-ymuno â thraffig yn y pen arall, yn ymddangos yn ddisymwth iawn os yn mynd tuag at y Rec" a "Mae'r lluniad yn awgrymu bod y ffordd feicio yn dod i ben ar Heol Ninian ger Heol y Gwernydd? Nid yw hyn yn ymddangos yn ddiogel"* | Rydym wrthi'n datblygu'r llwybr fel rhan o broses creu opsiynau WelTAG. Byddwn ni'n cynnal ymgynghoriad pellach yn y dyfodol ar gynigion y llwybr ehangach unwaith y byddant ar gael.<br><br>Fel trefniant dros dro, bydd dechrau neu ddiwedd llwybr beicio yn cael ei arwyddo a llinellau yn cael eu gosod unol â hynny er mwyn cynorthwyo defnyddwyr i ymuno neu adael yn ddiogel. Gall hyn olygu ail-ymuno â'r lôn gerbydau. |

| | |
|---|---|
| ***Pryderon am golli tir glas yn y parc…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Dydw i ddim o blaid adeiladu'r llwybr beics y tu mewn i ffiniau'r cae rec gan ei fod yn lleihau'r tir glas gwerthfawr o gwmpas y parc ymhellach", "Dwi wrth fy modd gyda'r llwybrau beicio ond plîs rhowch e ar y ffordd, peidiwch â chymryd mwy o fan gwyrdd er mwyn parcio ceir" a "Fy mhryder mwyaf fodd bynnag yw ymgripio'r llwybr beicio i mewn i fan gwyrdd y parc. Dwi'n teimlo y dylid osgoi tarmacio dros fan gwyrdd ar bob cyfrif"* | Nodwyd pryderon am golli mannau gwyrdd, ond bydd y cynigion yn ategu natur chwaraeon y cae chwarae drwy hyrwyddo teithio llesol i fynd ato. Bydd hefyd yn cysylltu ag Ysgol Gynradd y Rhath drwy'r groesfan sebra bresennol ar Heol Ninian a fydd yn cael ei huwchraddio yn groesfan gyfochrog, gan olygu y bydd plant ysgol yn gallu defnyddio'r llwybr i gyrraedd yr ysgol yn rhwydd yn yr un modd â chyrchu'r maes chwarae.<br><br>Wrth i'r cynllun ddatblygu, bydd gwybodaeth fanylach ar gael o ran lled y llwybrau troed a'r llwybr beicio. Fel rhan o'r dyluniad, byddwn yn edrych i weld sut y gellir cadw hyn mor gul â phosib, fel cadw lled llwybr troed culach gerllaw'r trac beicio a'r cerbydau cynnal a chadw yn defnyddio'r trac beicio. Byddwn hefyd yn ceisio lleoliadau lle gellid gweithredu'r parcio beiciau yn agosach at ffin y briffordd yn hytrach nag o fewn y man gwyrdd.<br><br>Rhagwelir y bydd y llwybr yn athraidd gyda thechneg adeiladu heb gloddio. Bydd gorffeniad yr wyneb hefyd yn gwella mynediad gydol y flwyddyn i ddefnyddwyr y parc tra'n caniatáu i ddŵr wyneb ddraenio. |
| ***Mae ymatebwyr wedi nodi problemau gyda thraffig a hoffent gael ffordd unffordd o amgylch y parc gyda llwybr beicio ar y ffordd…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Byddai'n well gen i weld y ffyrdd o gwmpas y parc yn unffordd, a defnyddio'r lôn nas defnyddir wedyn fel y lonydd beicio" a "Hoffwn weld newid yn llif traffig yr ardal a throi system draffig y parciau i gyd (o Rec y Rhath i'r Llyn) yn ddatrysiad ffordd gylchol"* | Er y gallai cyflwyno system unffordd ar raddfa fawr gynorthwyo rhai defnyddwyr, mae'n debyg y byddai cyflwyno system unffordd o amgylch y parc cyfan yn gweld cynnydd yng nghyflymder cerbydau ar y ffordd, gan y byddai gyrwyr yn ddi-wrthwyneb. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai cyfaint traffig yn cynyddu ar y ffyrdd ymyl oni bai eu bod hwythau hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o system unffordd. O ganlyniad i hyn, mae'n debygol y byddai'n achosi llawer iawn o anghyfleustra i lawer o drigolion yr ardal. I ddefnyddwyr bysiau, byddai hefyd yn golygu y byddai llwybr dargyfeirio sylweddol i gychwyn eu taith neu wrth ddychwelyd. |

| | |
|---|---|
| ***Pryderon am newidiadau i Heol y Gwernydd…***<br><br>***Crynodeb o'r sylwadau***<br>*"Peidiwch â chau Heol y Gwernydd os gwelwch yn dda. Mae'n ddolen ddefnyddiol iawn" ac "Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y gwaith o rwystro Heol y Gwernydd a fydd yn cynyddu'r tagfeydd sydd eisoes yn wael ym mhob pen i Heol Ninian."* | Mae'r ddwy gyffordd bob pen i Heol y Gwernydd yn gweithredu ymhell o fewn eu capasiti damcaniaethol. Dangosodd arolygon traffig diweddar ar y cyffyrdd hyn lifoedd traffig cymharol isel ar hyd Heol y Gwernydd ac mae Heol Ninian a Heol y Gwernydd yn gweithredu o fewn eu capasiti damcaniaethol. Wrth ystyried yr opsiynau ail-osod llwybrau posib sydd ar gael, nid yw'r traffig a ail-gyfeiriwyd sy'n defnyddio Heol y Gwernydd i dorri taith yn ddigon sylweddol i gael effaith negyddol ar y rhwydwaith priffyrdd pe bai Heol y Gwernydd yn cau i gerbydau traffig drwodd. Mae'r sylwadau a godwyd wedi eu nodi a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o fodelu ehangach yn y dyfodol a gaiff ei wneud. |
| *"Rwy'n gwrthwynebu'r syniad o gau Heol y Gwernydd. Bydd ei droi'n ben gaead yn arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal a bydd yn dod yn lle i loetran. Bydd hefyd yn achosi cynnydd enfawr mewn tagfeydd traffig yng ngoleuadau traffig Heol Tŷ Draw" a "Mae angen gwell mesurau diogelwch ar y ffordd"* | Nod cau Heol y Gwernydd yw gwneud y gyffordd yn fwy diogel i feicwyr sy'n defnyddio'r llwybr beicio arfaethedig, drwy gael gwared ar y risg posib o gerbydau'n troi i lwybr beicwyr. Nid yw'n glir pam y byddai'n dod yn lleoliad cynnull gwrthgymdeithasol, fodd bynnag, nodwyd y pryderon a byddwn yn ystyried pa fesurau y gellir eu cyflwyno i leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd, megis teledu cylch cyfyng, adolygiad o oleuadau stryd, clirio llystyfiant a darparu rheolaeth / cyfyngiadau parcio a'u gorfodi. |
| ***Pryder dros ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer llwybrau beicio a cherdded…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Dydych chi ddim yn dweud pa ddeunyddiau a ddefnyddir i greu'r llwybrau troed a'r llwybrau beicio i'w huwchraddio" a "Dylai'r llwybrau troed lletach fod yn balmant / tarmac, nid graean a fydd yn llenwi â mwd eto"* | Bydd union ddewis y deunyddiau yn cael ei benderfynu ar y cam dylunio manwl, fodd bynnag rhagwelir y bydd yr wyneb yn fath o darmac athraidd o orffeniad y gellir ei gynnal gydol y flwyddyn tra'n caniatáu draenio dŵr wyneb i helpu'r coed. |

| | |
|---|---|
| ***Pryderon nad yw'r llwybr beicio ar y ffordd…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Dylai'r llwybr beicio fod ar y ffordd ac nid yn y parc. Mae'n beryglus i gerddwyr ac i gŵn gael beicwyr mor agos", "Dwi'n meddwl dylai'r lôn feicio fod yn y ffordd, byddai'n gwella'r mynediad o Heol Wellfield" a "Rwy'n croesawu'r cynigion a gyflwynwyd yn fras yn yr ymgynghoriad hwn, ond teimlaf y byddai'n well i'r llwybr beicio fod ar y ffordd"* | Bydd beicwyr yn gallu parhau i ddefnyddio Heol Ninian os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny. Bydd y llwybr beicio yn cael ei wahanu o'r llwybr troed gydag arwyddo a gosod llinellau priodol a phwyntiau mynediad dynodedig ar gyfer beicwyr a cherddwyr. Mae gan bob defnyddiwr gyfrifoldeb i fod yn ymwybodol o'u hamgylchoedd a seiclo, cerdded neu reoli eu hanifeiliaid anwes yn ôl amodau'r briffordd / llwybr troed / llwybr beicio. Bydd y cynigion yn ategu natur chwaraeon y cae chwarae drwy hyrwyddo teithio llesol i gael mynediad ato. Bydd hefyd yn cysylltu ag Ysgol Gynradd y Rhath drwy'r groesfan sebra bresennol ar Heol Ninian. |
| ***Pryderon am oleuadau o amgylch y llwybr beicio…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Edrych yn wych, bydd angen goleuadau gan ei fod i ffwrdd o'r ffordd" a "Bydden i'n cefnogi goleuadau lefel isel ar ddwy ochr y Rec - mae'n gallu bod yn frawychus iawn cerdded drwy'r Rec ar nosweithiau tywyll (dwi ddim yn ei wneud am y rheswm yna)"*<br><br>*"Mae'n siŵr gen i y byddai beicwyr unig yn seiclo yn y nos, yn enwedig seiclwyr benywaidd, yn ffafrio'r Beicffordd ar y ffordd yn hytrach na thrwy'r parc wedi'i oleuo'n wael"* | Rydym am geisio goleuo'r llwybr beicio a fydd, gobeithio, hefyd o fudd i'r llwybr troed cyfagos. Rydym wrthi'n ymchwilio i hyn wrth feddwl am ystyriaethau amgylcheddol, gan gynnwys bywyd gwyllt ac amddiffyn gwreiddiau coed.<br><br>Bydd gan feicwyr yr opsiwn i ddefnyddio'r ffordd neu feicffordd wedi'i chynllunio. Byddwn hefyd yn edrych i ddarparu llinellau stopio blaen i feicwyr a allai ddewis parhau â'u taith o fewn lonydd traffig cyffredinol ar y ffordd. |
| ***Cais am well cyfleusterau toiled yn y parc…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Fel person hŷn sy'n defnyddio'r parc i gerdded, hoffwn weld gwell cyfleusterau toiled yn agor am oriau hirach." a "Mae angen cyfleusterau cyhoeddus arnom hefyd. Dyw'r ganolfan gymunedol ddim yn caniatáu i bobl ddefnyddio'r un yno* | Tra bod hyn y tu allan i gwmpas y cynllun hwn, byddwn yn anfon eich adborth i adran Barciau'r Cyngor sy'n rheoli'r meysydd chwarae, yn ogystal â'r rhai sy'n prydlesu'r adeilad i benderfynu a ellir defnyddio toiledau'r Ganolfan Gymunedol yn saff ac yn ddiogel. |

| | |
|---|---|
| *ac mae'r un agosaf o'r rec yn y gerddi rhosod"* | |
| **Ymatebwyr yn gofyn am welliannau i gyfleusterau campfa yn y parc...**<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Dylid gwella rhai o'r cyfleusterau campfa achlysurol o fewn Rec y Rhath i annog mwy o ymarfer corff a ffordd o fyw actif" a "Gallai'r offer campfa allanol wneud gyda rhywfaint o foderneiddio"* | Ar hyn o bryd, rydym ond yn bwriadu adleoli'r offer campfa awyr agored i wneud lle ar gyfer lledu'r llwybr troed a'r trac beicio. Byddwn wrth gwrs yn cysylltu gydag adran Barciau'r Cyngor i weld a oes modd uwchraddio unrhyw offer. |
| ***Pryderon wrth groesi'r gyffordd yn Heol Wellfield...***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Gall croesi cyffordd Heol Ninian a Heol Wellfield gymryd oesoedd.", **"**Nid yw'r cyfnod golau i gerddwyr ar gyffordd Heol Wellfield/Heol Ninian yn ddigon hir o bell ffordd" a "Mae' trefn y goleuadau traffig presennol yng nghyffordd Heol Wellfield/Heol Ninian* yn golygu y gall fod rhaid aros yn hir i'r goleuadau croesi i gerddwyr" | Fel yr amlinellir yn yr wybodaeth ymgynghori, rydym yn cael asesiad o'r gyffordd, gan gynnwys modelu. Mae'r modelu'n cynnwys adolygu symudiadau troi a dilyniannau camau i ymgorffori croesfan feicio a fydd yn cysylltu llwybr dros dro Heol Wellfield â'r llwybr arfaethedig ar Heol Ninian. Bydd cysylltiadau beicio eraill yn cael eu hystyried ond yn annhebygol o gynnwys camau beicio pwrpasol. Fel rhan o'r ymgynghoriad, roeddem am ddangos sut mae'r gyffordd yn cael ei datblygu a gwahodd adborth i lywio'r dyluniad. |
| ***Mae'r palmant ar gyffordd Heol Wellfield a Heol Ninian yn rhy gul ac yn cymryd amser i oleuadau traffig newid...***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*Mae'r palmant ar gyffordd Heol Wellfield a Heol Ninian yn rhy gul -* dim digon o le i gerddwyr" | Fel rhan o'n hymgysylltiad mewnol ag adrannau eraill y Cyngor ac Aelodau etholedig lleol, rydym wedi ystyried adborth ac yn cynnig lledu'r mannau croesi ac ehangu ardal y llwybr troed lle bo modd. |
| *"Mae'n cymryd dipyn o amser i oleuadau traffig newid"* | Fel rhan o asesu'r newidiadau i'r gyffordd, rydym yn edrych ar ffyrdd o wella neu leihau'r effaith y gallai'r cynigion eu cael ar y gyffordd sydd dan reolaeth signalau traffig. Mae hyn yn cynnwys newid trefn camau'r goleuadau i ymgorffori'r groesfan feicio neu edrych ar gael gwared ar rai symudiadau troi penodol i wella effeithlonrwydd y gyffordd. Mae'r |

| | |
|---|---|
| | cynlluniau wedi'u diweddaru yn cael eu dangos ar ddiwedd yr adroddiad hwn.<br><br>Er mwyn darparu ar gyfer y groesfan feics a fel bod y gyffordd yn gweithredu'n effeithlon, rydym yn bwriadu gwahardd y symudiad troi i'r dde o Heol Marlborough i Heol Pen-y-lan ac o Heol Wellfield i Heol Marlborough; cyfrif traffig isel sydd i'r ddau symudiad yma. Mae llwybrau gwyro amgen ar gael o fewn y rhwydwaith. |
| ***A oes modd ychwanegu mwy o feinciau at y parc…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Gallai'r rec wneud gyda chynnydd enfawr mewn meinciau ac atgyweirio'r rhai sydd wedi torri. Yn ystod yr haf prin y bydd unrhyw seddi ar gael" a "Gwell meinciau o amgylch tu allan y cae rec"* | Tra bod hyn y tu allan i gwmpas y cynllun hwn, byddwn yn anfon eich adborth i adran Barciau'r Cyngor sy'n rheoli'r caeau chwarae i benderfynu a oes modd darparu seddau ychwanegol neu eu hamnewid |
| ***A oes modd ychwanegu mwy o finiau i'r parc…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Gwelliannau - mwy o arwyddion am ddirwyon sbwriel, a mwy o finiau. Dwi hefyd yn teimlo'n gryf y dylid cael biniau baw cŵn ar wahân ar hyd yr holl barciau yn y Rhath" a "Byddai mwy o finiau o amgylch llwybrau'r parc yn braf, gobeithio, i leihau'r sbwriel"* | Tra bod hyn y tu allan i gwmpas y cynllun hwn, byddwn yn anfon eich adborth i adran Barciau'r Cyngor sy'n rheoli'r meysydd chwarae i benderfynu a oes modd darparu biniau ychwanegol. |
| ***Sut fydd beicwyr sy'n teithio o Heol Tŷ Draw yn cyrchu'r llwybr beicio…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Yn gyntaf, ni fyddai unrhyw fynediad beicio hawdd i'r llwybr beicio i unrhyw un (fel fi) sy'n dod o' ochr Heol Tŷ Draw / Heol Pen-y-lan. Rwy'n gwrthod seiclo i lawr Heol Pen-y-lan, mae'n llawer rhy beryglus gyda'r groesfan, y traffig prysur a'r ceir wedi'u parcio"* | Byddai mynediad i'r llwybr beicio yn bosibl o Heol Tŷ Draw ar hyd Heol y Gwernydd. Dros amser, bydd llwybrau ychwanegol a llwybrau cysylltu yn cael eu hychwanegu at y Rhwydwaith. Gallai'r llwybrau hyn gynnwys strydoedd beicio tawel sy'n lwybrau traffig isel sy'n ffafriol i seiclo, ond sydd ag arwyddion i gynorthwyo defnyddwyr i gyrchfannau, neu i brif lwybrau beicio. |

| | |
|---|---|
| *"Mae angen cynllun cydgysylltiedig hirdymor i greu isadeiledd beicio cyfan drwy Ben-y-lan a'r Rhath"* | Mae'r Cyngor hefyd yn diweddaru ac yn datblygu ei Map Rhwydwaith Teithio Llesol yn dilyn ymgynghoriad diweddar, ond rydym yn croesawu adborth o ran llwybrau y mae'r cyhoedd yn teimlo y dylid eu cynnwys. Darperir dolen i'r Map Rhwydwaith yma:<br><br>https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/transport-policies-plans/integrated-network-map/Pages/default.aspx |
| ***Cais am weld plannu mwy o wyrddni yn y parc...***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Byddai cael lliwiau mwy bywiog yn rhoi bywyd i'r parc ac yn ei wneud yn fwy deniadol efallai y gallent gael gwelyau blodau gan y byddai hyn o fudd i'r amgylchedd" a "Byddwn i wrth fy modd yn gweld gweithgareddau plannu ac unrhyw beth sy'n cynnal neu'n gwella'r gwyrddni yn yr ardal. Byddai hefyd yn bwysig ein bod yn gwarchod yr holl goed hyfryd sydd yn yr ardal"* | Tra bod hyn y tu allan i gwmpas y cynllun hwn, byddwn yn anfon eich adborth i adran Barciau'r Cyngor sy'n rheoli'r caeau chwarae i benderfynu a oes modd darparu tirlunio ychwanegol.<br><br>Mae ymgysylltu diweddar â Chyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi eu bod yn bwriadu gwneud gwaith adfer ar Nant Lleucu, er mwyn adfer y sianel a gwella ei gwerth geomorffolegol ac ecolegol. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. |
| ***Pryderon am symud coed ar gyfer y lôn feicio...***<br><br>*Crynodeb o'r Sylwadau*<br>*"Mae beicffordd drwy'r rec yn syniad da, ond nid os yw'n golygu bod y Cyngor yn torri'r coed i lawr" a "Pryder y bydd y coed ffawydd copr hardd ar hyd y llwybr beicio arfaethedig yn cael eu difrodi"* | Yn unol â gwybodaeth y pecyn ymgynghori, nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gael gwared ar unrhyw goed o ganlyniad i'r llwybr beicio arfaethedig.<br><br>Mae technegau adeiladu bellach sy'n golygu nad oes angen cloddio braidd dim, a fydd yn helpu i ddiogelu'r coed. Fel rhan o'r dyluniad, rydym yn ceisio defnyddio'r technegau hyn. Mae arolygon coed cynnar wedi nodi rhai coed sydd wedi'u heintio; fodd bynnag, byddwn yn cysylltu ag Adran Barciau'r Cyngor i benderfynu a oes angen eu tynnu i lawr am resymau diogelwch, neu yn wir os oes angen gwyro llwybr unrhyw un o'r llwybrau troed presennol neu'r llwybr beicio a gynllunnir i ddiogelu gwreiddiau coed.<br><br>Fel rhan o ymgysylltu diweddar â Chyfoeth Naturiol Cymru, nodwyd eu bod yn bwriadu gwneud gwaith |

| | |
|---|---|
| | adfer i Nant Lleucu, er mwyn adfer y sianel a gwella'r gwerth geomorffolegol ac ecolegol. Fel rhan o'u gwaith, efallai y bydd angen teneuo llystyfiant neu goed yng nghyffiniau Nant Lleucu. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. |
| ***Nis ymgynghorwyd â holl ddefnyddwyr y parc…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Bydd y grwpiau sy'n defnyddio'r lleiniau ar Gae Rec y Rhath ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon yn cael eu heffeithio gan y cynnig. Ond nid yw'n glir bod y cyngor wedi mynd ati i ymgysylltu â nhw"*<br><br>*"Fe wnes i ymweld â'r llyfrgell a'r ganolfan gymunedol. Fodd bynnag, nid oes hysbysiad ar unrhyw un o'r byrddau gwybodaeth nac wedi eu rhoi ar y ffenestri/drysau"*<br><br>*"Er bod dalen wedi ei lamineiddio wedi'i hatodi braidd yn ansicr i oleuadau stryd ac yn y blaen, nid oes gwybodaeth ger y peiriannau na'r hysbysfyrddau. Ni fyddai defnyddwyr rheolaidd y maes parcio a'r llyfrgell/canolfan - na hyd yn oed pobl sy'n pasio heibio - yn ymwybodol o'r cynnig i dorri'r cyfleuster parcio cyhoeddus yn y ganolfan (ymhlith pethau eraill)."* | Wrth gynnal ymgynghoriadau, yn anffodus efallai na fydd bob amser yn bosibl nodi pob grŵp a allai fod eisiau gwneud sylw neu beidio ar gynigion cynllun. Fodd bynnag, mae hysbysiadau safle wedi eu harddangos ger y cynigion i roi'r cyfle i bobl neu grwpiau nad ydynt efallai wedi'u cynnwys mewn proses ymgysylltu uniongyrchol i wneud sylw.<br><br>Mae canlyniad ymgynghori ar y rhan arbennig hon o'r llwybr beicio yn dylanwadu ar drefn y gyffordd a'r maes parcio. Rydym yn gwahodd adborth pellach i'r cynlluniau sydd wedi'u diweddaru a geir ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Byddwn hefyd yn ceisio arddangos y cynlluniau wedi'u diweddaru yn y Ganolfan Gymunedol, yn amodol ar eu bod yn cael eu cytuno fel rhan o Ddiweddariad Ymgynghori.<br><br>Bydd rhagor o waith ymgysylltu yn cael ei wneud yn dilyn yr ymgynghoriad hwn o ran y llwybr ehangach pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.<br><br>Ceir gwybodaeth am y maes parcio isod, yn adran nesaf y tabl hwn. |
| ***Pryderon dros golli parcio yn y maes parcio a cholli parcio ar y stryd…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Byddai'r llwybr arfaethedig yn golygu colli tua 20% o gapasiti presennol y maes parcio yn Llyfrgell/Canolfan Gymunedol Pen-y-lan."* | Nid ydym eto wedi darparu unrhyw wybodaeth am gynllun y maes parcio nac unrhyw golled bosibl i'r parcio yn y maes parcio. Bydd angen newid y maes parcio er mwyn creu lle i'r llwybr beicio drwy ochr Heol Ninian i'r maes parcio.<br><br>Byddai ein dyluniad cyfredol yn awgrymu y gallai trefniant amgen yn y maes parcio gynnig tua 49 o lefydd cyffredinol a 4 man anabl. Yn gyffredinol, byddai tua 3-4 o lefydd cyffredinol yn cael eu colli, |

| | |
|---|---|
| *"Mae'n debyg y byddai ail leoli'r safle bws yn union wrth ymyl y ganolfan ar Heol Pen-y-lan yn effeithio ar y parcio heb gyfyngiadau ar y stryd ychydig yn bellach i fyny Heol Pen-y-lan ger y bont dros y nant."* | er bod tua 3 gofod ar hyn o bryd sy'n is na'r safon o ran lled yn y maes parcio presennol. Gall y rhif hwn fod yn destun newid wrth i'r dyluniad fynd yn ei flaen oherwydd amodau safle annisgwyl.<br><br>Fel y nodwyd yn y wybodaeth ymgynghori, mae'n annhebygol y bydd y cynigion yn arwain at golli parcio ar y stryd yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad presennol, ond mae'n bosib y bydd rhywfaint o barcio yn cael ei ddadleoli. Lle mae safleoedd bws ymwthiol yn cael eu hadeiladu, gall maint y cyfyngiadau parcio gael eu lleihau a fydd yn rhoi cyfle i ddarparu parcio amgen ar y stryd. Rydym hefyd yn gwella mynediad i safleoedd bws, sy'n hunan-orfodi ac yn cael eu codi i greu gwell mynediad i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed. Hefyd fe gynigir gwell seilwaith beicio / parcio a mynediad i gerddwyr a fydd yn annog defnyddwyr i ddefnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy. |
| ***Dylai llwybr beicio amgen fod ar hyd Heol Tŷ Draw…***<br><br>***Crynodeb o'r Sylwadau***<br>*"Mae'r Map Teithio Integredig sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn dangos y llwybr beicio fel ei fod ar hyd Heol Tŷ Draw. Yn wir, wrth gerdded ar hyd yr adran hon fe welir arwyddbyst llwybr beicio ar gyfer mynediad i'r brifysgol a neuaddau preswyl" a "Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i roi'r llwybr beicio ar Heol Tŷ Draw"* | Mae asesiad cychwynnol o Heol Tŷ Draw wedi'i gynnal. Nododd yr asesiad hwn y byddai angen gwneud Heol Tŷ Draw yn unffordd er mwyn darparu ar gyfer llwybr beicio ar wahan. Fodd bynnag, wrth ystyried y gofod priffordd angenrheidiol ar gyfer mynediad brys, troedffyrdd a llwybr beicio, ni fyddai digon o le hyd yn oed wedyn i ddarparu llwybr beicio heb golli'r holl barcio, neu golli coed a mynd i'r gerddi pleser caeedig, sy'n annhebygol o gael cefnogaeth.<br><br>Cynhaliwyd ymgysylltu cynnar o ganlyniad i ddatblygu'r opsiynau llwybrau beicio a'r cyfle i alinio'r llwybr beicio â'r cynigion i ledu o fewn y caeau chwarae. Mae asesiad cynnar o addasrwydd Heol Tŷ Draw ar gyfer llwybr sydd ar wahan hefyd wedi dylanwadu ar y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig yr ymgynghorir arno o fewn y maes chwarae, sy'n ategu'r cynigion lledu. Byddwn ym ymgynghori ar ragor o wybodaeth fanylach yn y dyfodol, gan gynnwys cynigion ehangach y cynllun.<br><br>Mae Map Rhwydwaith Teithio Llesol a Cherddded y Cyngor yn y broses o gael ei ddiweddaru. Ar ôl ei ddiweddaru, caiff ei gyflwyno ar wefan y Cyngor a bydd yn nodi gweledigaeth a dyhead y Cyngor o ran |

| | |
|---|---|
| | llwybrau Teithio Llesol. Ni fydd gan lawer o'r llwybrau hyn unrhyw fanylion a byddant yn destun ymchwilio ymhellach, dylunio ac ymgynghori â'r cyhoedd, pe bai cyllid ar gael i ddatblygu'r llwybrau. |
| ***Symud y rhwystrau culhau'r ffordd o Heol Tŷ Draw...*** <br> *"Mae'r cynlluniau i gael gwared ar y pwyntiau pinsio (rhwystrau culhau) ar Heol Tŷ Draw wedi cael eu glastwreiddio." "Roedd sgyrsiau rhwng Swyddogion a Chynghorwyr Pen-y-lan yn dyddio nôl i cyn 2017 yn ei gwneud yn glir bod arian a106 wedi cael ei nodi ac yn barod i gael ei dynnu lawr i wneud y gwaith yma"* <br> *"Bydd Heol Tŷ Draw yn parhau i fod yn lle bygythiol i yrru a seiclo yno nes bod y pwyntiau pinsio yn cael eu tynnu."* | Mae'r Cyngor wedi cynnal ymchwiliad o ran y rhwystrau culhau presennol ar Heol Tŷ Draw, i benderfynu a oes cyfiawnhad i ddileu neu uwchraddio'r mesurau. <br><br> Daeth canlyniad yr ymchwiliad hwn i'r casgliad, o'r arolygon traffig diweddar, bod cerbydau yn goryrru ar Heol Tŷ Draw er gwaethaf y mesurau rheoli traffig presennol sydd ar waith, a bod y ffordd eisoes yn llwybr Teithio Llesol poblogaidd. Mae Heol Tŷ Draw hefyd wedi'i nodi ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol drafft, er oherwydd cyfyngiadau'r briffordd, byddai'n cael ei weld fel Llwybr Eilaidd, nid fel prif lwybr. Dangosodd data damweiniau ffyrdd 3 digwyddiad lle bu anaf o fewn ardal yr astudiaeth fodd bynnag byddai'r digwyddiadau'n awgrymu nad oes unrhyw ddiffygion yng nghynllun y briffordd. <br><br> Nid yw'r cyfleusterau presennol wrth y rhwystrau culhau yn addas i'r diben ar gyfer beicwyr oherwydd malurion yn y llwybrau osgoi i feics a hefyd mae rhwystrau culhau yn aneffeithiol o dan amodau traffig sy'n llifo'n rhwydd i leihau cyflymder traffig. <br><br> O asesiad o'r data sydd ar gael, argymhellwyd bod y rhwystrau culhau presennol yn cael eu disodli gan gyfleusterau croesfan nas rheolir ddyrchafedig ac ymwthiol a bod nodwedd arafu ychwanegol yn cael ei gosod rhwng cyffordd Heol y Gwernydd a Clos Derwen i leihau cyflymder cerbydau a gwneud y ffordd yn fwy ffafriol i Deithio Llesol. <br><br> Argymhellir hefyd bod newid y rhwystrau culhau a mesurau ychwanegol yn cael eu gwneud fel rhan o'r cynigion cynllun presennol a gynllunnir ar gyfer Cae Rec y Rhath. <br><br> Roedd y cyllid A106 blaenorol a nodwyd yn gysylltiedig â chynllun gwella priffyrdd ar Heol Pen-y-lan wrth ei chyffyrdd â Dorchester Avenue / Winchester Avenue. Nid oedd digon o arian ar gael i gynnwys tynnu'r rhwystrau culhau ar Heol Tŷ Draw. |

| | |
|---|---|
| | Nodir bod deiseb wedi ei derbyn ar ôl dyddiad cau'r ymgynghoriad (30 Mawrth 2022), a oedd yn cynnwys 37 llofnod o 31 cartref, i "annog Cyngor Caerdydd i weithredu'r cynllun i ddisodli'r rhwystrau culhau ar Heol Tŷ Draw gyda chroesfannau arafu ochr yn ochr â gweithredu gwelliannau yn Rec y Rhath". |
| ***Ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru…*** | O ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel rhan o'r rhan benodol hon o'r prosiect, nodwyd eu bod am wneud gwaith adfer ar Nant Lleucu o fewn ardal y tiroedd hamdden (rhwng Heol y Gwernydd a Heol Pen-y-lan).<br><br>Ar hyn o bryd mae Nant Lleucu yn methu â chyrraedd gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac un o'r rhesymau dros fethu yw addasiadau ffisegol hanesyddol i'r cwrs dŵr. Mae CNC yn anelu at ddatblygu opsiynau i adfer y sianel a gwella'r gwerth geomorffolegol ac ecolegol.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor na'r CNC unrhyw gynlluniau pendant o ran y gwaith adfer hwn, fodd bynnag bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y dyfodol, fel rhan o waith ymgysylltu CNC ei hun. |

## Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Fel yr amlygwyd o fewn yr adroddiad, nodwyd bod yr URL a'r cynllun safle wedi'u hepgor o'r llythyr a gafodd ei bostio i drigolion fel rhan dosbarthiad llythyrau. Roedd gwybodaeth gyswllt a chod QR ar gael yn y llythyr a oedd yn darparu modd o naill ai gael gafael ar y wybodaeth neu ofyn am y wybodaeth.

Ar y sail mai ymarfer ymgysylltu cynnar oedd yr ymgynghoriad penodol hwn, ni theimlwyd bod angen cynnal dosbarthiad llythyr ychwanegol gyda'r wybodaeth wedi ei hychwanegu. Bydd cyfle yn cael ei roi fel rhan o'r diweddariad ymgynghori i roi adborth pellach. Cynllunnir ymgynghori pellach hefyd pan fydd gennym wybodaeth am y llwybr ehangach, a fydd yn cael ei bennu fel rhan o broses WelTAG.

Anfonwyd tua 900 o lythyrau at drigolion a busnesau yn yr ardal ger y cynnig hwn, gyda 257 o ymatebion wedi eu derbyn trwy arolwg ar-lein i'r ymgynghoriad. Byddai hyn yn awgrymu tua chyfradd ymateb o 28% a thua mwyafrif o 72% o bobl (na wnaeth ymateb) sydd heb wrthwynebiadau na safbwyntiau ar y cynnig. Daeth deiseb i law wedi'r dyddiad cau yn ymwneud â'r rhwystrau culhau ar Heol Tŷ Draw.

Canlyniad yr arolwg ymgynghori yw bod mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol i'r cynlluniau i adeiladu llwybr beicio newydd ar diroedd Cae Rec y Rhath. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu y bydd y mesurau arfaethedig yn eu hannog i gerdded neu feicio mwy ac mae'r rhai sydd eisoes yn cerdded a seiclo yn credu y bydd yn gwella mynediad iddyn nhw o amgylch y

tiroedd. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y bydd y llwybr beicio drwy'r cae chwarae ar Gae Rec y Rhath law yn llaw â llwybr troed newydd, lletach, o fudd iddynt.

Mae'r prif bwyntiau a godwyd o'r ymgynghoriad wedi eu crynhoi fel a ganlyn.

- Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r mesurau arfaethedig;
- Mae dros hanner yr ymatebwyr yn cefnogi'r llwybr beicio drwy'r parc gyda thraean o'r ymatebwyr yn cefnogi'r llwybr beicio ond yn meddwl y dylai fod ar y ffordd fawr.
- Roedd y rhan fwyaf yn credu y byddai'r mesurau arfaethedig yn fuddiol iddynt ac yn eu hannog naill ai i gerdded neu feicio, neu y bydd yn gwella hygyrchedd i'r rhai sy'n cerdded ac yn seiclo ar hyn o bryd.
- Roedd yna lawer o wrthwynebiadau i gau Heol y Gwernydd;
- Roedd llawer o sylwadau gan yr ymatebwyr yn pryderu am gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian ac yn sôn ei fod yn cymryd amser i oleuadau traffig newid;
- Soniodd llawer o'r ymatebwyr hefyd fod y palmant ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian yn rhy gul; a
- Codwyd rhai pryderon o ran cerddwyr a chŵn yn croesi'r llwybr beicio i gyrraedd y parc.

## Argymhellion/ Camau Gweithredu

Argymhellir bod y cynllun yn mynd rhagddo yn unol â'r cynlluniau sydd wedi'u diweddaru sydd ynghlwm ar gyfer y cynllun, gyda'r camau canlynol:

- Ystyried yr holl adborth mewnol a chyhoeddus presennol ac yn y dyfodol i lywio'r dyluniad manwl;
- Ystyriaeth bellach i ddylunio o ran rhyngweithio beicwyr â defnyddwyr y parc a fel arall (fel rhan o ddyluniad manwl);
- Ystyriaeth bellach i ddylunio o ran lleihau faint o fannau gwyrdd sy'n cael eu defnyddio (fel rhan o ddyluniad manwl);
- I roi gwybodaeth fanylach, yn enwedig o ran y maes parcio. Cyfeirio at ddyluniadau cysyniad ynghlwm fydd wedi'u diweddaru. Bydd byrddau gwybodaeth hefyd yn cael eu hystyried er mwyn arddangos yn y Ganolfan Gymunedol (yn amodol ar ganiatâd);
- I ystyried pa fesurau y gellir eu cyflwyno er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd ar Heol y Gwernydd, megis teledu cylch cyfyng, adolygu goleuadau stryd, clirio llystyfiant a darparu rheolaeth / cyfyngiadau parcio a'u gorfodi (fel rhan o ddatblygiad y cynllun ac fel rhan o fonitro ôl-weithredol);
- Byddwn ni'n cysylltu ag adran Barciau'r Cyngor sy'n rheoli'r caeau chwarae yn ogystal â'r rhai sy'n prydlesu'r adeilad er mwyn penderfynu a ellir defnyddio toiledau'r Ganolfan Gymunedol yn saff a diogel;
- Byddwn yn cysylltu gydag adran Barciau'r Cyngor i benderfynu a oes modd uwchraddio unrhyw un o'r offer campfa awyr agored;
- I gynnwys uwchraddio'r rhwystrau culhau ar Heol Tŷ Draw yn groesfannau nas rheolir dyrchafedig ac ymwthiol a mesur ychwanegol ger Clos Derwen fel rhan o'r cynnig cynllun presennol hwn;
- Datblygu cynigion ar gyfer dolen gysylltu rhwng Heol Road ac Ysgol Gynradd Parc y Rhath sy'n cynnig troedffordd letach at ddefnydd a rennir, tra'n cynnal parcio a thraffig dwy ffordd i gerbydau; a

- Er ei fod y tu allan i gwmpas y cynllun hwn, byddwn yn cysylltu ag adran Barciau'r Cyngor sy'n rheoli'r caeau chwarae i benderfynu a ellir gwneud gwaith plannu a thirlunio ychwanegol, yn ogystal ag os gellir darparu meinciau a biniau ychwanegol (neu eu hamnewid).

## Y camau nesaf…

- Cyfle ychwanegol i roi adborth/sylwadau;
- Bydd y dyluniad yn cael ei ddatblygu gan ystyried yr ymgynghoriad hwn ac yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol;
- Bydd angen rhagor o ymgysylltu o ran y llwybr ehangach; a
- Cyswllt parhaus gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Trawsnewid
Trafnidiaeth
Caerdydd

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

Cynlluniau yr Adroddiad Ymgynghori wedi eu Diweddaru

CARDIFF
CAERDYDD




Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Adroddiad Ymgynghori – Cynllun Trosolwg wedi ei Ddiweddaru






*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Adroddiad Ymgynghori – Cynnig Ychwanegol – Heol Tŷ Draw





*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Adroddiad Ymgynghori – Cynllun wedi ei Ddiweddaru ar gyfer ardal Heol y Gwernydd







*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Adroddiad Ymgynghori – Cynllun wedi ei Ddiweddaru ar gyfer ardal Pen-Y-Wain Place







*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Adroddiad Ymgynghori - Cynllun wedi ei Ddiweddaru ar gyfer cyffordd Heol Ninian/Heol Pen-y-lan







*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Adroddiad Ymgynghori – Cynllun wedi ei Ddiweddaru ar gyfer ardal y Ganolfan Gymunedol






*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*